***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 637 (Cy.63)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) (Diwygio) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *7 Mawrth 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *9 Mawrth 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22, 42(6) a 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) (Diwygio) 2010.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2010 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2008**

**2.** Diwygir Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2008(**3**) yn unol â'r rheoliad a ganlyn.

**3.** Yn rheoliad 2, yn lle paragraff (b) o'r diffiniad o "cwrs dynodedig", rhodder —

"(b) sy'n cael ei ariannu gan—

(i) Llywodraeth Cynulliad Cymru;

(**1**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21), adrannau 146, 153 ac Atodlen 11, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p.1), adran 722 ac Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p.14), adran 147 a Deddf Addysg Uwch 2004 (p.8), adrannau 42, 43, 50 ac Atodlen 7. Diwygiwyd adran 42 ac adran 43 gan Ddeddf Addysg 2002 (p.32), adran 148 ac Atodlen 12 a Deddf Addysg Uwch 2004 (p.8) adran 49 ac Atodlen 6.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adran (2)(a), (c), (j) neu (k), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ac mae Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1833 (Cy.149) (C.79)) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/1660 (Cy.159) (C. 56)) yn cyfeirio at hyn. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(a) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2008/538 (Cy.51).

(ii) y Cyngor Dysgu a Sgiliau o dan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**4**);

(iii) Asiantaeth Ddysgu Pobl Ifanc Lloegr o dan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**5**);

(iv) y Prif Weithredwr Ariannu Sgiliau o dan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009; neu

(v) awdurdod cyhoeddus sy'n gyfrifol am ariannu addysg (ac eithrio addysg uwch) a hyfforddiant sy'n addas at ofynion personau 19 oed neu drosodd o dan gyfraith yr Alban neu Ogledd Iwerddon;".

**Diwygio Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2009**

**4.** Diwygir Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2009(**6**) yn unol â'r rheoliad a ganlyn.

**5.** Yn rheoliad 2, yn lle paragraff (b) o'r diffiniad o "cwrs dynodedig", rhodder—

"(b) sy'n cael ei ariannu gan—

(i) Llywodraeth Cynulliad Cymru;

(ii) y Cyngor Dysgu a Sgiliau o dan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**7**);

(iii) Asiantaeth Ddysgu Pobl Ifanc Lloegr o dan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**8**);

(iv) y Prif Weithredwr Ariannu Sgiliau o dan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009; neu

(v) awdurdod cyhoeddus sy'n gyfrifol am ariannu addysg (ac eithrio addysg uwch) a hyfforddiant sy'n addas at ofynion personau 19 oed neu drosodd o dan gyfraith yr Alban neu Ogledd Iwerddon;".

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

7 Mawrth 2010

(**4**) 2000 p. 21.
(**5**) 2009 p. 22.
(**6**) O.S. 2009/2158 (Cy.182).
(**7**) 2000 p. 21.
(**8**) 2009 p. 22.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2008 ("Rheoliadau 2008") a Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2009 ("Rheoliadau 2009").

Mae Rheoliadau 2008 a Rheoliadau 2009 yn darparu ar gyfer talu grant i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau addysg bellach dynodedig yn ystod y blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2008 ac ar neu ar ôl 1 Medi 2009 yn y drefn honno. Mae cyrsiau dynodedig fel y'u diffinnir yn y rheoliadau hynny'n cynnwys cyrsiau sy'n cael eu hariannu gan Gyngor Dysgu a Sgiliau Lloegr.

Mae Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22) yn gwneud darpariaeth ar gyfer diddymu Cyngor Dysgu a Sgiliau Lloegr ac ar gyfer sefydlu Asiantaeth Ddysgu Pobl Ifanc Lloegr a'r Prif Weithredwr Ariannu Sgiliau i ariannu cyrsiau addysg bellach yn Lloegr.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2008 a Rheoliadau 2009 er mwyn gwneud darpariaeth i'r cyrsiau dynodedig a ddiffinnir yn y rheoliadau hynny gynnwys cyrsiau a ariennir gan Asiantaeth Ddysgu Pobl Ifanc Lloegr a chan y Prif Weithredwr Ariannu Sgiliau.

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei baratoi ar gyfer yr offeryn hwn, gan nad yw'n effeithio o gwbl ar gostau busnesau, elusennau neu gyrff gwirfoddol. Bach iawn yw'r effaith ar y sector cyhoeddus.